Gorffennaf – Rhagfyr 2024

# Gwarchod a gwella ecosystem y fferm

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

## Hyfforddiant Achredededig

**5** Unigolion a gefnogwyd

**5** Busnesau a gefnogwyd

**106** Oriau o hyfforddiant

| Roedd y cyrsiau'n cynnwys: | Unigolion a gefnogwyd |
|---|---|
| Defnyddio Dip Defaid yn Ddiogel | 3 |
| Sylfaen BASIS mewn Agronomeg (Amaethyddiaeth) | 1 |
| Adfer Mawndiroedd i Ymarferwyr | 1 |

## E-ddysgu

**45** Nifer yr unigolion a gefnogwyd

**29** Nifer y busnesau a gefnogwyd

| Roedd y modiwlau'n cynnwys | Nifer yr unigolion a gefnogwyd |
|---|---|
| Cyflwyniad i Ffermio Cynaliadwy | 8 |
| Garddwriaeth: Diwydrwydd Dyladwy ar gyfer Tyfwyr ar Raddfa Fach | 7 |
| Arallgyfeirio ac Ychwanegu Gwerth | 4 |
| Buddion i Bobl, Anifeiliaid a Lleoedd | 3 |

Roedd modiwlau newydd ar BOSS yn cynnwys:

Defnyddio Dŵr yn Effeithlon (gan gynnwys Cynaeafu a Storio)
Adeiladu Carbon yn y Pridd
Samplu a Dadansoddi Pridd
Iechyd y Pridd
Rheoli Mawndir
Ffermio Cymysg
Rheoli Llifogydd yn Naturiol
Buddion defnyddio Bridiau Prin a Brodorol

## Hyfforddiant Garddwriaeth

**Mae themâu allweddol yn ymwneud â gwarchod a gwella'r ecosystem wedi'u hymgorffori yn yr hyfforddiant ac yn aml yn cael eu trafod mewn sesiynau cymorth busnes garddwriaeth.**

**Prif themâu:**

- Casglu a defnyddio dŵr
- Iechyd y pridd – gan gynnwys sut i fonitro lleithder y pridd
- Amrywiaeth gyfoethog ar y fferm – Rheoli Plâu a Chlefydau yn Integredig i leihau'r defnydd o gemegau a chynyddu bioamrywiaeth
- Perfformiad cnydau a gwerthuso cynnyrch i bennu mewnbynnau megis gwrteithiau

## Gwasanaeth Cynghori

Cyfanswm nifer yr hawliadau am Gyngor:

**769** Gwarchod a gwella ecosystem y fferm – Defnyddio dŵr yn effeithlon (gan gynnwys cynaeafu a storio)

**821** Gwarchod a gwella ecosystem y fferm – Lleihau'r risg o lygredd gwasgaredig (ansawdd dŵr)

**44** Gwarchod a gwella ecosystem y fferm – Rheoli a chreu cynefinoedd yn y cae a lled naturiol)

**906** Gwarchod a gwella ecosystem y fferm – Ffermio cymysg

**524** Gwarchod a gwella ecosystem y fferm – Rheoli llifogydd yn naturiol

**1375** Gwarchod a gwella ecosystem y fferm – Iechyd y pridd

Adborth: Adroddiad da'n amlinellu gofynion y cnwd ar gyfer y fferm ac argymhellion ar sut i wneud gwell defnydd o'n tail buarth ein hunain.

## Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

**9 digwyddiad** **140** **o fynychwyr**

**Roedd y pynciau yn cynnwys:**

- Tyfu eich protein eich hun
- Priddoedd Iach
- Llygredd Amaethyddol

## Clinigau

**105** Cwblhawyd 105 Clinig

Roedd y pynciau'n cynnwys: Priddoedd | Glaswelltir | Maeth

## Cymorthfeydd

**70** Cwblhawyd 70 Cymhorthfa

Roedd y pynciau'n cynnwys: Isadeiledd

## Podlediad

Rhifyn 105: Fferm Glascoed – Gwella Effeithlonrwydd

## Grwpiau Trafod

**Diogelu a gwella ecosystem y fferm**

**57** Cyfarfod **369** o fynychwyr **134 awr**

| | Nifer y cyfarfodydd |
|---|---|
| Iechyd y pridd | 33 |
| Ffermio cymysg | 22 |
| Buddion defnyddio bridiau prin a brodorol | 17 |
| Rheoli a chreu cynefinoedd cae a lled-naturiol | 3 |
| Lleihau'r risg o lygredd gwasgaredig (ansawdd dŵr) | 8 |
| Defnyddio dŵr yn effeithlon (gan gynnwys cynaeafu a storio) | 4 |
| Rheoli llifogydd yn naturiol | 3 |

**Geiriau allweddol: Seiliedig ar laswellt, Atal dŵr ffo, Porthiant a dyfir gartref, Drilio'n uniongyrchol, Lleihau'r defnydd o nitrogen.**

## Mentora

**Cynhaliwyd 620 awr o fentora**





- Lleihau'r risg o lygredd gwasgaredig (ansawdd dŵr) **156**
- Rheoli a chreu cynefinoedd cae a lled-naturiol **50**
- Iechyd y pridd **16**
- Defnyddio dŵr yn effeithlon (gan gynnwys cynaeafu a storio) **8**
- Ffermio cymysg **5**
- Buddion defnyddio bridiau prin a brodorol **4**

Roedd dyfyniadau o'r dyddiaduron mentora'n cynnwys:

1. *Ers y sesiwn fentora ddiwethaf, mae'r mentai wedi llwyddo i fewnbynnu pob un o'i gaeau, ond roedd eisiau cymorth gydag adran 3.1 o'r Llyfr Gwaith Llygredd Amaethyddol.*
2. *Mae Ellie a Mike yn cadw fferm fach 52 erw gyda cheffylau sy'n gweithio. Daw prif incwm y fferm o hyfforddi ceffylau ar gyfer gwaith amaethyddol, ynghyd â chynnig amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi ar eu defnyddio. Maen nhw hefyd wedi gwerthu ambell i ebol, ac yn ystyried gwerthu offer arbenigol. Buom yn trafod eu cynlluniau i arallgyfeirio a datblygu'r busnes, gan gynnwys gwerthu bocsys cig a llysiau, llety i westeion, a chynnal mwy o gyrsiau.*
3. *Buom yn cerdded ar draws y tir i nodi rhai o'r planhigion a'r coed ac yn trafod yr hyn yr oeddent yn ei awgrymu am gyflwr y pridd ac ati. Buom yn trafod rheoli'r caeau rhos heb eu gwella yn yr ardaloedd gwlypach. Buom yn ceisio dod o hyd i ateb i'r broblem o gannoedd o fyrnau gwair bach wedi cael eu gadael yn eu caeau gan gontractwr. Buom yn archwilio rhai o'r coed ynn sy'n marw o safbwynt risgiau posibl o ganlyniad i adael iddynt gwympo'n naturiol. Fe wnaethom ni barhau ein trafodaeth ynghylch pori gwartheg ar y tir.*

## Agrisgôp

**Cynhaliwyd 14 cyfarfod grŵp Agrisgôp**




- Iechyd y pridd **11**
- Lleihau'r risg o lygredd gwasgaredig (ansawdd dŵr) **4**
- Rheoli a chreu cynefinoedd cae a lled-naturiol **2**
- Defnyddio dŵr yn effeithlon (gan gynnwys cynaeafu a storio) **2**

Bu grwpiau a fu'n cyfarfod yn ystod y cyfnod yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. Daeth y grŵp gwymon ynghyd i edrych yn ôl ar y wybodaeth a rannwyd yn ystod yr Ymweliad Ein Ffermydd â Fferm Tanygraig, a buont yn trafod y cynnydd a welsant wrth ddefnyddio'r cynnyrch Gwymon ar eu ffermydd eu hunain. Roedd yn braf clywed canlyniadau'r arbrawf cychwynnol ar fferm Tanygraig a oedd yn dangos cynnydd o 18% yng nghynnyrch y silwair a dorrwyd o'r ardal lle defnyddiwyd y cynnyrch o'i gymharu â'r ardaloedd lle na chafodd ei ddefnyddio.
2. Cafodd y grŵp systemau da byw biolegol drafodaeth ynglŷn â dadansoddiad pridd manwl a sut i wneud hyn gyda'r nod o gydbwyso'r microbau a'r ffwng i sicrhau harmoni uwchben ac o dan y ddaear. Buont hefyd yn trafod sut mae caniatáu i'r da byw bori helyg yn gallu lleihau'r baich llyngyr, amrywiaeth planhigion yn y gwndwn a gostwng y gyfradd stocio, ac i beidio â phori mor galed i ganiatáu gorchudd dros y pridd, Mae caniatáu mwy o orchudd glaswellt yn gallu lleihau dŵr ffo i gyrsiau dŵr, Mae gwella iechyd y pridd hefyd yn gallu lleihau'r angen i wasgaru gwrteithiau artiffisial sy'n lleihau trwytholchi nitrogen a ffosfforws i gyrsiau dŵr.
3. Bu cyfarfod arall ar gyfer y grŵp systemau da byw biolegol yn trafod integreiddio amaeth goedwigaeth a phori ymysg coed mewn systemau pori sy'n gallu helpu i gadw mwy o ddŵr trwy wella ymdreiddiad a gallu'r pridd i ddargadw dŵr. Mae coed a llwyni'n gwella gallu'r pridd i amsugno a dal dŵr, gan leihau dŵr ffo a gwella ansawdd dŵr. Yn ogystal, gall amaeth goedwigaeth liniaru effaith llifogydd drwy gynyddu capasiti'r tir i ddal dŵr.

## Rhwydwaith Ein Ffermydd

Ymweld ag Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio: Arddangosiad o Ragoriaeth Amaethyddol | Farming Connect – yn ystod y cyfarfodydd, cafodd y prosiectau canlynol eu hamlygu a'u trafod gyda mynychwyr:

- › Llinellau Sylfaen Bioamrywiaeth
- › Cynefinoedd Cyffredin A Geir Ar Ein Ffermydd
- › Arolygon Adar Sy'n Nythu Ar Draws Ein Ffermydd
- › Pryfed Genwair Ar Ein Ffermydd
- › Cynefinoedd ar gyfer Peillwyr



Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**